Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

MEYSYDD BLAENORIAETH ANABLEDDAU DYSGU:

# Tai

## Llety fforddiadwy sy'n cefnogi pobl ag anabledd dysgu i fyw'n annibynnol.

**Rydyn ni eisiau cael gwell dealltwriaeth o opsiynau tai, a'u gwella, ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Bydd hyn yn gwella profiadau pobl ac yn eu paratoi'n well wrth drosglwyddo i fyw'n annibynnol.**



### BETH SY'N BWYSIG I BOBL AG ANABLEDDAU DYSGU?

Mae pobl ag anableddau dysgu eisiau byw mor annibynnol â phosibl, ac maen nhw'n cydnabod y gallai fod angen cymorth arnynt i wneud hyn.

Maen nhw hefyd eisiau byw a bod yn rhan o gymunedau ffyniannus. Mae hyn yn golygu y dylai opsiynau llety fod mewn lleoliad sydd wedi'i amgylchynu gan isadeiledd economaidd a chymdeithasol da, gan gynnwys cysylltiadau trafnidiaeth, cyfleusterau cymunedol, gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol, siopau a gweithgareddau cymdeithasol.

### BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

- Adolygu opsiynau tai ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.
- Bydd anghenion pobl ag anabledd dysgu yn cael eu hadlewyrchu yn y **Rhaglen Gyfalaf Ranbarthol**.
- Datblygu eiddo newydd mewn ardaloedd ble mae galw mawr.
- Gwella hygyrchedd i wasanaethau cymunedol.
- Adolygu'r trefniadau pontio presennol a gwneud argymhellion ar gyfer gwella.



### PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Bydd pobl ag anabledd dysgu yn fwy ymwybodol o opsiynau llety.
- Mae opsiynau llety yn ateb anghenion a gofynion pobl ag anabledd dysgu'n well.
- Mae rhaglenni adeiladu newydd yn cael eu llywio gan bobl ag anabledd dysgu.
- Gwell mynediad i ddarpariaeth yn y gymuned.
- Lleihau'r pryder a brofir gan bobl ag anabledd dysgu yn ystod cyfnodau trosiannol.

### DYWEDODD POBL

**"Cartref yw ble mae'r galon, cysgod rhag y storm. Cartref yw ble mae'r galon, cadwch fi'n ddiogel ac yn gynnes."**